



CYLCH GORCHWYL A THREFNIADAU GWEITHREDU

Fforwm Partneriaeth Lleol

Fersiwn y Ddogfen	4
-------------------	---

Statws	Cymeradwywyd
--------	--------------

Awdur y ddogfen:	Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd
Cymeradwywyd gan	Cyfarfod Fforwm Partneriaeth Leol
Dyddiad cymeradwyo:	Mawrth 2025
Dyddiad adolygu:	Mawrth 2026



AMCAN STRATEGOL	Datblygiad y sefydliad digidol newydd
------------------------	---------------------------------------

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL	Cymru Iachach
Os oes mwy nag un safon yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: Cymru Ffyniannus, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	

SAFONAU ANSAWDD IGDC	BS 76000:2015
Os oes mwy nag un safon yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: BS 76005, Y Safon Iechyd Corfforaethol	

SAFON GOFAL IECHYD	Staff ac Adnoddau
Os oes mwy nag un safon yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	

DATGANIAD YR ASESIAID O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB	Dyddiad cyflwyno: Ddim yn berthnasol
Na, (mae'r manylion am y rhesymau wedi'u cynnwys isod)	Canlyniad: Ddim yn berthnasol
Datganiad: Nid yw'r Cylch Gorchwyl yn gofyn am Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA).	

LLWYBR CYMERADWYO/CRAFFU: Unigolyn/Pwyllgor/Grŵp sydd wedi derbyn neu ystyried		
PWYLLGOR NEU GRŴP	DYDDIAD	CANLYNIAD
Fforwm Partneriaeth Lleol	Mawrth 2025	Cymeradwywyd
Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig	Mawrth 2025	Cymeradwywyd



ASESIAD O'R EFFAITH	
GOBLYGIADAU/EFFAITH ANSAWDD A DIOGELWCH	Nid oes unrhyw oblygiadau penodol o ran ansawdd a diogelwch yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.
GOBLYGIADAU/EFFAITH CYFREITHIOL	Nac oes, nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.
GOBLYGIADAU/EFFAITH ARIANNOL	Nac oes, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.
GOBLYGIADAU/EFFAITH AR Y GWEITHLU	Oes, gweler y manylion isod Mae'r cylch gorchwyl yn nodi sut y bydd y rheolwyr perthnasol a'r cyrff cydnabyddedig yn gweithio gyda'i gilydd a'r dull gweithredu a gaiff ei fabwysiadu.
GOBLYGIADAU/EFFAITH ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL	Nac oes, nid oes unrhyw oblygiadau economaidd-gymdeithasol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.



TABL CYNNWYS

1	HANES Y DDOGFEN	5
1.1	HANES ADOLYGU	5
1.2	ADOLYGWYR	5
1.3	AWDURDODI	5
1.4	LLEOLIAD Y DDOGFEN	6
2	DIBEN Y GRŴP	6
3	EGWYDDORION CYFFREDINOL.....	7
4	CYFARFODYDD	8
5	AELODAETH.....	8
6	PERTHNASOEDD ALLWEDDOL.....	9
7	LLYWODRAETHU.....	9
7.1	yr Ymddiriedolaeth	9
7.2	Is-bwyllgorau	9
8	ATODIAD 1 - Egwyddorion partneriaeth y Gyngres yr Undebau Llafur (TUC).....	10
9	ATODIAD 2 – Cod Ymddygiad	11
10	ATODIAD 3 – Rhestr o Undebau Llafur/Cyrff Proffesiynol Cydnabyddedig y cyfeirir atynt fel ‘sefydliadau staff’ yn y Rheolau Sefydlog hyn.....	12



1 HANES Y DDOGFEN

1.1 HANES ADOLYGU

Dyddiad	Fersiwn	Awdur	Crynodeb Adolygu
27.05.2021	0.1	Chris Darling	Drafft Cychwynnol
30.11.2022	0.2	Laura Tolley	Wedi'i adolygu ar gyfer adolygiad blynyddol
Chwefror 2024	0.3	Laura Tolley	Wedi'i adolygu ar gyfer adolygiad blynyddol
Chwefror 2026	0.4	Laura Tolley	Wedi'i adolygu ar gyfer adolygiad blynyddol



1.2 ADOLYGWYR

Mae angen yr adolygiadau canlynol ar y ddogfen hon:

Dyddiad	Fersiwn	Enw	Swydd
08.06.21	1	Fforwm Partneriaeth Lleol	Aelodau'r Grŵp Cynghori
Rhagfyr 2022	2	Chris Darling	Ysgrifennydd y Bwrdd
Chwefror 2024	3	Chris Darling	Ysgrifennydd y Bwrdd
Chwefror 2025	4	Chris Darling	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol Ysgrifennydd y Bwrdd


1.3 AWDURDODI

Mae llofnodi'r ddogfen hon yn dangos eich bod yn derbyn ei chynnwys.

Enw'r Awdur:	Laura Tolley
Rôl:	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd
Llofnod:	 Recoverable Signature  <hr/> Author Signed by: Andrea Harris (An286780)

Enw'r Cymeradwywr:	Chris Darling
Rôl:	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol Ysgrifennydd y Bwrdd



Llofnod:	 Recoverable Signature X Chris Darling <hr/> Chris Darling Director of Corporate Affairs / Board Secretary Signed by: Andrea Harris (An286780)
----------	--

1.4 LLEOLIAD Y DDOGFEN

Math	Lleoliad
Electronig	System Reoli Integredig / iPassport

2 DIBEN Y GRŴP

Fforwm Partneriaeth Leol IGDC (LPF) yw'r mecanwaith ffurfiol pan fo cyflogwyr ac undebau llafur/cyrff proffesiynol GIG Cymru (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel sefydliadau staff) yn cydweithio i wella gwasanaethau iechyd i bobl Cymru. Dyma'r fforwm lle bydd rhanddeiliaid allweddol yn ymgysylltu â'i gilydd i hysbysu, trafod ac i geisio cytuno ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu a'r gwasanaeth iechyd.

Ar y cyfle cynharaf, bydd aelodau DHCW yn ymgysylltu â sefydliadau staff yn y trafodaethau allweddol o fewn yr AIA ar lefel y Bwrdd, LPF a'r Gyfarwyddiaeth.

Mae holl aelodau LPF yn aelodau llawn a chyfartal o'r fforwm ac yn rhannu cyfrifoldeb am y penderfyniadau a wneir ar y cyd.

Bydd yr LPF yn darparu'r mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgynghori, negodi a chyfathrebu rhwng y sefydliadau staff a'r rheolwyr. Bydd egwyddorion partneriaeth Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) yn berthnasol. Mae'r egwyddorion hyn ynghlwm yn Atodiad 1.

Pwrpas yr LPF fydd:

- Sefydlu deialog reolaidd a ffurfiol rhwng y Cyfarwyddwyr Gweithredol a sefydliadau staff ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu a'r gwasanaeth iechyd.
- Galluogi cyflogwyr a sefydliadau staff i gyflwyno materion sy'n effeithio ar y gweithlu.
- Darparu cyfleoedd i sefydliadau staff a rheolwyr gyfrannu at gynlluniau datblygu gwasanaeth sefydliadau yn gynnar yn y broses.
- Ystyried goblygiadau adolygiadau gwasanaeth ar staff a nodi a cheisio cytuno ar ffyrdd newydd o weithio.
- Ystyried y goblygiadau i staff sefydliadau'r GIG ar lefel genedlaethol neu leol a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni gweithrediad llwyddiannus i'r ddwy ochr.



- Gwerthuso a thrafod perfformiad ariannol y sefydliad mewn partneriaeth yn rheolaidd.
- Gwerthuso a thrafod gwasanaethau a gweithgareddau'r sefydliad a'i oblygiadau mewn partneriaeth.
- Rhoi cyfleoedd i nodi a cheisio cytuno ar faterion ansawdd, gan gynnwys llywodraethu clinigol, yn enwedig pan fydd materion o'r fath yn effeithio ar y staff.
- Cyfleu'r penderfyniadau allweddol a gymerwyd gan y Bwrdd ac uwch reolwyr i'r partneriaid.
- Ystyried datblygiadau cenedlaethol yn Strategaeth Gweithlu a Sefydliadol GIG Cymru a'r goblygiadau i'r sefydliad, gan gynnwys materion yn ymwneud ag ail-broffilio gwasanaethau.
- Negodi materion sy'n destun penderfyniad lleol.
- Sicrhau bod cynrychiolwyr sefydliadau staff yn cael amser rhesymol i ffwrdd â thâl i gyflawni dyletswyddau undeb llafur
- Datblygu trefniadau cyfleusterau priodol mewn partneriaeth gan ddefnyddio Cytundeb Cyfleusterau A4C fel safon ofynnol

Yn ogystal, gall yr LPF sefydlu is-grwpiau LPF i sefydlu deialog, cyfathrebu ac ymgynghori parhaus ar faterion rheoli gwasanaeth a gweithredol sy'n benodol i Gyfarwyddiaethau. Lle caiff yr is-grwpiau hyn eu datblygu, rhaid iddynt adrodd i LPF IGDC.

3 EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae DHCW a LPF yn derbyn bod partneriaethau'n helpu'r gweithlu a'r rheolwyr i weithio drwy heriau ac i dyfu a chryfhau eu sefydliadau. Mae perthnasoedd yn cael eu hadeiladu ar ymddiriedaeth a hyder ac yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i gydweithio.

Mae egwyddorion gweithio mewn partneriaeth gwirioneddol rhwng sefydliadau staff a Rheolwyr:

- Mae sefydliadau staff a rheolwyr yn dangos ymrwymiad ar y cyd i lwyddiant y sefydliad gydag ymagwedd gadarnhaol ac adeiladol
- Maent yn cydnabod cyfreithlondeb partneriaid eraill a'u buddiannau ac yn trin pob parti ag ymddiriedaeth a pharch at y naill a'r llall
- Maent yn dangos ymrwymiad i sicrwydd cyflogaeth ar gyfer gweithwyr a ffyrdd hyblyg o weithio
- Maent yn rhannu llwyddiant – rhaid teimlo bod gwobrau'n deg
- Maent yn ymarfer cyfathrebu agored a thryloyw – gan rannu gwybodaeth yn eang gyda natur agored, gonestrwydd a thryloywder
- Rhaid iddynt ddwyn cynrychiolaeth effeithiol o safbwyntiau a buddiannau'r gweithlu
- Rhaid iddynt ddangos ymrwymiad i weithio gyda'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd

Rhaid i bob aelod o'r LPF wneud y canlynol:

- bod yn barod i ymgysylltu â gweithgareddau'r LPF a chyfrannu'n llawn atynt ac mewn modd sy'n cynnal y safonau llywodraethu da a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru;
- cydymffurfio â'u telerau ac amodau penodi;
- arfogi eu hunain i gyflawni ehangder eu cyfrifoldebau drwy gymryd rhan mewn rhaglenni



- datblygiad personol a sefydliadol priodol; a
- hyrwyddo gwaith yr LPF o fewn y ddisgyblaeth broffesiynol y maent yn ei chynrychioli.

Mae Cod Ymddygiad ynghlwm yn Atodiad 2.

4 CYFARFODYDD

Cynhelir cyfarfodydd yn chwarterol ond gellir newid hyn i adlewyrchu angen naill ai sefydliadau staff neu reolwyr.

Bydd busnes y cyfarfod yn cael ei gyfyngu i faterion sy'n ymwneud â materion LPF a dylai gynnwys materion gweithredol lleol. Bydd materion strategol ar draws DHCW a materion sydd â goblygiadau ar draws DHCW yn cael eu cyfeirio at Fforwm Partneriaeth Cymru drwy'r Bwrdd.

Bydd y cofnodion fel arfer yn cael eu dosbarthu 10 diwrnod ar ôl y cyfarfod a dim hwyrach na 7 diwrnod cyn y cyfarfod nesaf. Dylid rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd Rheoli am eitemau ar gyfer yr agenda a phapurau ategol cyn gynted â phosibl, ac o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod.

Mae gan y LPF y gallu i gyfethol eraill i'r LPF neu ei is-grwpiau yn ôl yr angen trwy gytundeb.

5 AELODAETH

Mae pob aelod o'r LPF yn aelodau llawn a chyfartal ac yn rhannu cyfrifoldeb am benderfyniadau'r LPF. Bydd sefydliad y GIG yn cytuno ar faint a chyfansoddiad cyffredinol yr LPF mewn ymgynghoriad â'r sefydliadau staff hynny y mae DHCW yn eu cydnabod ar gyfer cydfargeinio. Bydd disgwyl i aelod Undeb Llafur y Bwrdd fynychu'r LPF mewn swyddogaeth ex officio. Fel isafswm, bydd aelodaeth yr LPF yn cynnwys:

Cynrychiolwyr Rheoli

Bydd rheolwyr fel arfer yn cynnwys yr aelodau canlynol o gynrychiolwyr rheoli.

Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol | Ysgrifennydd y Bwrdd
Rheolwyr o Gyfarwyddiaethau (fel y nodir yn lleol)
Staff Pobl a Datblygu Sefydliadol (fel y nodir yn lleol)
Prif Weithredwr (fel arfer yn mynd i un cyfarfod y flwyddyn)

Gall Cyfarwyddwyr Gweithredol eraill ac eraill hefyd fod yn aelodau neu gellir eu cyfethol yn dibynnu ar yr agenda.

Cynrychiolwyr staff

Mae'r Bwrdd yn cydnabod y sefydliadau staff hynny a restrir yn Atodiad 3 ar gyfer cynrychiolaeth aelodau a gyflogir gan DHCW.

Rhaid i gynrychiolwyr staff gael eu cyflogi gan DHCW a'u hachredu gan eu priod sefydliadau staff at ddibenion bargeinio. Os bydd cynrychiolydd yn peidio â chael ei gyflogi gan DHCW neu'n peidio â bod yn aelod o sefydliad enwebu staff, yna byddant yn peidio â bod yn aelod o'r LPF yn awtomatig. Gall swyddogion amser llawn y sefydliadau staff fynychu cyfarfodydd yn amodol ar hysbysiad a chytundeb ymlaen llaw.

Gall aelodau o'r LPF nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfod anfon dirprwy, ar yr amod bod



dirprwyon o'r fath yn gymwys i gael eu penodi i'r LPF.

Bydd staff fel arfer yn cynnwys yr aelodau canlynol o gynrychiolwyr staff.

Cynrychiolwyr Unsain IGDC
Cynrychiolwyr Rhanbarthol Unsain
Cynrychiolwyr Unite IGDC
Cynrychiolydd Rhanbarthol Unite
Cynrychiolydd Rheolwyr Mewn Partneriaeth
Cynrychiolwyr staff

Cworwm

Bydd pob parti yn gwneud pob ymdrech i gynnal aelodaeth sefydlog. Dylai fod 50% o'r ddwy ochr yn bresennol er mwyn i'r cyfarfod fod â chworwm.

Os nad oes cworwm yn y cyfarfod, ni ellir gwneud unrhyw benderfyniadau ond gellir cyfnewid gwybodaeth. Os bydd cyd-gadeiryddion yn cytuno, gellir trefnu cyfarfod arbennig o fewn 7 diwrnod calendr o rybudd.

Mae presenoldeb cyson ac ymrwymiad i gymryd rhan mewn trafodaethau yn hanfodol. Lle nad yw aelod o'r LPF yn mynychu 3 gwaith yn olynol, bydd y Cyd-Ysgrifenyddion yn ysgrifennu at yr aelod o'r LPF ac yn dod â'r ymateb i'r cyfarfod nesaf i'w ystyried ymhellach ac o bosibl ei ddiswyddo.

6 PERTHNASOEDD ALLWEDDOL

Bydd y Fforwm Partneriaeth Lleol yn adrodd yn rheolaidd i Fwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru drwy'r Adroddiad ar y Prif Bwyntiau.

7 LLYWODRAETHU

7.1 yr Ymddiriedolaeth

Bydd Cadeirydd Trefniadaeth Staff, yr Is-gadeirydd a'r Ysgrifennydd yn cael eu hethol o'r LPF yn flynyddol. Mae arfer gorau yn ei gwneud yn ofynnol i'r tri swyddog hyn ddod o wahanol sefydliadau staff.

Cadeiryddion

Bydd Rheolwyr a Chadeiryddion y Drefniadaeth Staff yn cadeirio'r LPF. Gwneir hyn ar sail cylchdro. Yn absenoldeb y Cadeirydd(ion) bydd yr Is-gadeirydd(ion) yn gweithredu fel Cadeirydd. Bydd y Cadeiryddion yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd ac, fel y bo'n briodol, â Chadeiryddion grwpiau cynghori eraill DHCW (os yn berthnasol). Gyda chefnogaeth Ysgrifennydd y Bwrdd, bydd Cadeiryddion yn sicrhau bod materion allweddol a phriodol yn cael eu trafod gan yr LPF mewn modd amserol gyda'r holl wybodaeth a chyngor angenrheidiol ar gael i aelodau'r LPF i lywio'r ddadl a'r penderfyniadau terfynol

Ysgrifenyddiaeth

Pennir yr ysgrifenyddiaeth gan y tîm Llywodraethu Corfforaethol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

7.2 Is-bwyllgorau

Pan ystyrir ei bod yn briodol, gall y LPF benderfynu penodi is-bwyllgor i gynnal trafodaeth fanwl ar fater(ion) penodol. Bydd cynrychiolwyr enwebedig i is-bwyllgorau yn cyfathrebu ac yn adrodd yn rheolaidd i'r LPF.



8 ATODIAD 1 - Egwyddorion partneriaeth y Gyngres yr Undebau Llafur (TUC)

Chwe Egwyddor Gweithio mewn Partneriaeth

- ymrwymiad ar y cyd i lwyddiant y sefydliad
- ffocws ar ansawdd bywyd gwaith
- cydnabyddiaeth o rolau cyfreithlon y cyflogwr a'r undeb llafur
- ymrwymiad gan y cyflogwr i sicrwydd cyflogaeth
- diffuantrwydd ar y ddwy ochr a pharodrwydd y cyflogwr i rannu gwybodaeth a thrafod cynlluniau'r sefydliad ar gyfer y dyfodol
- ychwanegu gwerth - cyd-ddealltwriaeth bod y bartneriaeth yn cyflawni gwelliannau mesuradwy i'r cyflogwr, yr undeb a'r gweithwyr



9 ATODIAD 2 – Cod Ymddygiad

Mae cod ymddygiad ar gyfer cyfarfodydd yn gosod rheolau sylfaenol ar gyfer yr holl gyfranogwyr:

- Parchu amser cychwyn y cyfarfod a chyrraedd yn brydlon
- Mynychu'r cyfarfod wedi'ch paratoi'n dda, yn barod i gyfrannu a chydag agwedd gadarnhaol
- Gwrando'n weithredol Caniatáu i eraill esbonio neu egluro pan fo angen
- Arsylwi ar y gofyniad mai dim ond un person sy'n siarad ar y tro
- Osgoi 'lladd ar' farn neu bwyntiau a wnaed gan gydweithwyr
- Parchu safbwynt cydweithiwr
- Osgoi defnyddio ymddygiad negyddol e.e. coegni, sgorio pwyntiau, personoli
- Ceisio peidio ag ymateb yn negyddol i feirniadaeth neu ei weld fel gwawd personol
- Cyflwyno beirniadaeth mewn ffordd gadarnhaol
- Bod yn ymwybodol bod yn rhaid gwneud penderfyniadau ac nad yw'n bosibl darparu ar gyfer pob barn unigol
- Ni ddylid cynnal 'cyfarfodydd atodol'
- Parchu'r Cadeirydd
- Gall methu â chadw at y Cod Ymddygiad arwain at atal neu ddiswyddo'r aelod LPF.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

10 ATODIAD 3 – Rhestr o Undebau Llafur/Cyrff Proffesiynol Cydnabyddedig y cyfeirir atynt fel ‘sefydliadau staff’ yn y Rheolau Sefydlog hyn

- UNSAIN
- Unite
- Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA)
- Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)
- Coleg Brenhinol y Bydwagedd (RCN)
- GMB
- Managers in Partnership (MIP)